**Cyfeirnod:** IR926

**Dyddiad cyhoeddi:** 29 Gorffenaf 2024

## CC Langstone, CC Llantilio Pertholey a CC Grysmwnt

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 4 Gorffennaf 2024. Er hwylustod, rwyf wedi copïo'ch cwestiynau mewn print trwm isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- **A ydych wedi gofyn iddo [redacted] am y cyfrifon ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ar gyfer Cyngor Cymuned Langstone?**

Gwnaethom ofyn am gyfrifon 2022-23 mewn hysbysiad archwilio a gyhoeddwyd i'r cyn-glerc ym mis Mai 2023. Rydym wedi gofyn i [redacted] ddarparu cyfrifon 2022-23 a gwybodaeth ategol ar 13 Chwefror 2024, 7 Mehefin 2024 a 25 Mehefin 2024. Cyhoeddwyd hysbysiad archwilio ar gyfer cyfrifon 2023-24 ar 18 Mawrth 2024. Dylai'r cyfrifon fod wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2024, ac maent i fod i gael eu cyflwyno i ni erbyn 8 Awst.

- **A ydych wedi cael ymateb o gwbl?**

Rydym wedi cael ymateb gan [redacted]. Cawsom gyfrifon 2022-23 ar 13 Mehefin 2024 ond ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach. Darparodd [redacted] gopi o gyfrifon 2023-24 yn y cyfarfod ar 19 Gorffennaf. Fodd bynnag, ni chymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor ar y pryd.

- **A oes gennych hawl i ysgrifennu at y cadeirydd neu'r cynghorwyr i ofyn am y cyfrifon?**

Gallwn ysgrifennu at y cadeirydd a'r cynghorwyr, ond fel arfer rydym yn delio â'r clerc yn y lle cyntaf. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r cadeirydd.

- **A yw archwiliad cyfrifon Llantilio Pertholey ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2024 wedi'i gwblhau?**

Mae'r archwiliadau hyn ar y gweill, ac rydym yn aros am ymateb i ymholiadau archwilio.

- **A yw archwiliad cyfrifon CC Grysmwnt wedi'i gwblhau ar gyfer 2022-23 a 2023-24?**

Mae'r archwiliadau hyn ar y gweill. Mae [redacted] wedi darparu papurau electronig a chopi caled i'w hadolygu.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth